# Deuparth Ffordd Ei Gwybod

# Polisi Gofal Personol

**Mae'r Corff Llywodraethol Llawn wedi mabwysiadu'r polisi hwn.**

Cytunwyd: Tachwedd 2025

Arwyddwyd: *Julie Barton*

**Mrs Julie Barton**

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

I'w adolygu: Tachwedd 2027

# YSGOL GARTH OLWG

## POLISI GOFAL PERSONOL

### Cyflwyniad

Mae Ysgol Garth Olwg wedi ymrwymo i sicrhau y bydd pob aelod o staff sy'n gyfrifol am ofal personol plant a phobl ifanc yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd proffesiynol ar bob adeg.

Rydym yn cydnabod bod angen trin pob plentyn â pharch wrth ddarparu gofal personol. Ni ddylid trin unrhyw blentyn mewn modd a fyddai'n achosi gofid, cywilydd, anghysur neu boen iddynt. Mae llesiant ac urddas y plentyn neu'r person ifanc yn hollbwysig a chaiff preifatrwydd pob plentyn neu berson ifanc ei barchu.

Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Ragflaenorol: Mae'n rhaid i bob polisi ac arfer ddangos ystyriaeth ddyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagflaenorol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn amlygu'r angen i'r Cyngor a'r ysgolion ragweld anghenion defnyddwyr anabl y gwasanaeth a chymryd camau rhesymol i gael gwared ar rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn rhagflaenorol gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i roi ystyriaeth i'r rhwystrau sy'n atal pobl ag anableddau rhag defnyddio gwasanaethau, ac yn gweithredu ar y rhwystrau hynny, ynghyd â galluogi'r bobl i gael profiad o'r gwasanaeth cyn iddynt gael mynediad ato. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried anghenion plant oedran cyn ysgol.

### Sail Resymegol

Diben y canllawiau hyn yw gosod gweithdrefnau sy'n:

- Diogelu plant, pobl ifanc ac aelodau staff drwy ddarparu dull cyson yn rhan o fframwaith, ac sy'n
- Cydnabod swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n darparu gofal personol i blant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod bod gofal personol yn codi materion cymhleth; er na fydd yn bosibl dileu pob perygl, dylai'r cydbwysedd ganolbwyntio'n fwy ar urddas, preifatrwydd, dewis y rhiant a'r disgybl, pan fo hynny'n briodol, a diogelwch.

Mae'n ofynnol i bob gweithiwr, ym mha swydd bynnag, gymryd gofal rhesymol i sicrhau ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac eraill, a gweithio yn unol â'r canllawiau polisi a gweithdrefn.

### Gofal Personol – Diffiniad

Mae gofal personol yn ymwneud â helpu dysgwyr ag agweddau ar ofal personol nad ydynt yn gallu eu gwneud eu hunain, naill ai oherwydd eu hoedran a'u haeddfedrwydd, neu oherwydd oedi yn eu datblygiad neu anabledd. Gallai fod angen cymorth ar ddysgwyr ag anableddau i symud a chodi a chario, bwyta ac yfed a phob agwedd ar ofal personol, gan gynnwys:

- Ymolchi
- Gwisgo a dadwisgo (gan gynnwys nofio)
- Gweithgareddau sy'n ymwneud â defnyddio toiledau, a'r mislif
- Glanhau ar ôl i blentyn faeddu ei hun

- Rhoi eli haul ymlaen

Anogir dysgwyr i allu cyflawni eu gofal personol eu hunain yn annibynnol pan fo hynny'n bosibl.

## NODAU

- Diogelu hawliau a llesiant dysgwyr o ran urddas, preifatrwydd, dewis a diogelwch.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu trin yn yr un modd pan fyddant yn cael profiad o ofal personol mewn dau leoliad neu fwy.
- Rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr bod gan bob aelod o staff wybodaeth am ofal personol, ac y rhoddir ystyriaeth i bryderon unigolion a gweithredir arnynt pan fo hynny'n bosibl.
- Galluogi rhieni/gofalwyr i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau o ran gofal personol eu plant.
- Darparu canllawiau, hyfforddiant, goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r aelodau staff a sicrhau bod arfer da ar waith
- Sicrhau bod rhieni /ofalwyr a phlant a phobl ifanc (pan fo hynny'n briodol) yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu protocolau Gofal Personol y cytunir arnynt.
- Sicrhau bod y lleoliad addysg yn rhannu manylion y protocolau gofal personol y cytunwyd arnynt ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl.

## Ymagwedd at arfer gorau

- Mae angen cynllunio'n ofalus ar gyfer rheoli pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion gofal personol.
- Mae angen i bob aelod o staff sy'n darparu gofal personol gadw eu hyfforddiant diogelu yn gyfredol.

## Egwyddorion arfer gorau:

Dylid trin y dysgwr sydd angen gofal personol â pharch bob amser; mae llesiant ac urddas y plentyn neu'r person ifanc yn hollbwysig.

- Caniatáu i'r dysgwr ofalu am ei hunan hyd y bo modd, er mwyn annog annibyniaeth a'i ysgogi i ymgymryd ag elfennau o'i ofal personol yn rhan o'i ddatblygiad personol a chymdeithasol. Gellir gosod targedau i ddatblygu'r sgiliau bywyd hyn.
- Caiff y plentyn ei gefnogi i gyrraedd y lefel uchaf o annibyniaeth hyd y bo'n bosibl wrth ystyried ei oedran a'i allu. Bydd yr aelodau staff yn annog pob plentyn i wneud cymaint ag â phosibl ei hunan. Gall hyn olygu, er enghraifft, rhoi cyfrifoldeb i'r plentyn ymolchi ar ei ben ei hun.
- Darparu cyfleusterau sy'n briodol i oedran ac anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid ystyried ethnigrwydd, diwylliant, credoau a chrefydd, a dylid nodi a chofnodi unrhyw ofynion arbennig o ran gofal personol.
- Dangos ymwybyddiaeth o adweithiau'r dysgwr, ei gyfathrebu llafar a di-eiriau ac unrhyw arwyddion y cytunwyd arnynt, ac ymateb i'r rhain.
- Perchir hawl pob plentyn i breifatrwydd. Ystyrir sefyllfa pob plentyn yn ofalus i benderfynu faint o ofalwyr y gallai fod eu hangen wrth i blentyn dderbyn gofal personol. Pan fo'n bosibl, bydd un oedolyn yn gofalu am un plentyn oni bai bod rhesymau cadarn dros bresenoldeb mwy nag un oedolyn, (e.e.) pan fo anabledd corfforol yn ei gwneud yn ofynnol i fwy nag un aelod o staff

ddarparu gofal, neu pan fo angen diogelu'r aelodau staff. Os felly, dylid cofnodi'r rheswm yn glir. I osgoi cysylltiadau rhy gyfeillgar, yr arfer gorau fyddai argymell rota o staff a all gyflawni'r dasg hon gyda'r plentyn/person ifanc. Bydd hyn yn dibynnu ar gymarebau staff yn yr ysgolion unigol.

- Mae gwerth cadarnhaol o gael dynion a menywod yn aelodau staff i gyflawni gofal plant. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i briodoldeb rhyw yr aelod o staff sy'n cyflawni'r tasgau gofal personol.

Bydd angen Cynllun Gofal Iechyd Personol ar rai disgyblion. Yr ysgol sy'n ysgrifennu'r rhain, ar y cyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gall y cynlluniau gynnwys:

- Bwyta â chymorth e.e. gastrostomi (bwydo PEG)
- Rhoi meddyginiaethau
- Rhaglen Ffisiotherapi / Therapi Galwedigaethol
- Codi a Chario
- Tylino/Cyfathrebu dwys
- Rhoi meddyginiaethau arwynebol (e.e. eli ecsema)

Gweithwyr iechyd proffesiynol ddylai cyflawni bwydo gastrig drwy'r trwyn.

## Llythyr caniatâd

Mae'n rhaid gofyn am ganiatâd y rhiant/ofalwr cyn cyflawni unrhyw fath o Ofal Personol. Dylai'r holl aelodau staff hynny sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc wybod y rhoddwyd caniatâd cyn cyflawni unrhyw Ofal Personol.

**Diogelu Plant**

Cedwir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol/lleoliad.

Os oes gan aelod o staff unrhyw bryderon ynglŷn â newidiadau corfforol plentyn/person ifanc, e.e. marciau, cleisiau, poen ac ati, bydd yn adrodd y pryderon ar unwaith i'r rheolwr priodol/person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Os bydd dysgwr yn ofidus neu'n anhapus ynglŷn â'i ofal gan aelod penodol o staff, ystyrir y mater a chofnodir y canlyniadau. Cysylltir â'r rhieni/gofalwyr cyn gynted â phosibl yn rhan o'r broses hon er mwyn cyrraedd penderfyniad. Caiff amserlenni'r aelodau staff eu newid nes y caiff y materion eu datrys er mwyn sicrhau bod anghenion y plentyn yn parhau i fod yn hollbwysig. Derbynnir rhagor o gyngor gan asiantaethau allanol pe byddai angen gwneud hynny.

Os bydd plentyn yn cyhuddo aelod o staff, dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 law yn llaw â Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol/lleoliad.

Ysgrifennwyd y polisi hwn drwy ymgynghori ag aelodau staff a Chorff Llywodraethu Ysgol (enw'r ysgol) ac fe'i cymeradwywyd ar:

Dyddiad: ______________________________________________________

Caiff y polisi hwn ei adolygu ar: __________________________________

**Llofnod:** Pennaeth __________________________________________

**Llofnod:** Cadeirydd y Llywodraethwyr __________________________________